**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 11-01(min)**

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 20 Mehefin 2001 |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 5.05pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, Cadeirydd | Canol a Gorllewin Cymru |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Delyth Evans | Canol a Gorllewin Cymru |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder (eitemau 4, 5 a 6) | Gogledd Cymru |
| *Swyddogion* | |
| Gareth Jones (eitem 2) | Pennaeth Gweithrediadau Clwy’r Traed a’r Genau |
| Rory O’Sullivan (eitemau 2, 3 a 5) | Is-adran Polisi Amaethyddol |
| Tony Edwards (eitem 2) | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Mike Dunn (eitemau 2, 4 a 5) | Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Alan Starkey (eitem 4) | Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

### Eitem 1: Ymddiheuriadau, cyfnewidiadau a datganiadau o fudd

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan John Griffiths a chan Janet Ryder ar gyfer rhan gyntaf y cyfarfod. Datganodd y Cadeirydd fod iddo fudd fel partner mewn busnes ffermio. Dywedodd Peter Rogers ei fod yn ffermwr a dywedodd Mick Bates ei fod yn bartner mewn busnes ffermio.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog -** ARD 11-01(p1)
2.1 Dywedodd y Gweinidog wrth y pwyllgor ei fod yn bwriadu ysgrifennu at bob ffermwr yng Nghymru ddechrau’r wythnos ddilynol ynghylch nifer o faterion yn ymwneud â chlwy’r traed a’r genau, gan gynnwys yr ystyriaeth a roddwyd i greu trefn brynu a gwerthu da byw fyddai wedi’i rheoli’n ofalus er mwyn osgoi lledaenu’r clwy. Cadarnhaodd hefyd fod y statws "Ardal wedi’i Heintio" wedi’i godi yn ardal Abertawe.

2.2 Holwyd y Gweinidog pam bod anifeiliaid y canfuwyd eu bod yn cario gwrthgorffynnau rhag clwy’r traed a’r genau wedi eu lladd a pham bod profion gwaed yn cael eu gwneud mewn ardaloedd a oedd dros dri chilomedr oddi wrth ffermydd heintiedig. Eglurodd y Gweinidog fod defaid y cafwyd canlyniad cadarnhaol i brofion am wrthgorffynnau ynddynt yn cael eu lladd er mwyn helpu i sicrhau y byddai’r DG yn adennill ei statws rhydd o’r clwy. Dywedodd Tony Edwards fod profion gwaed yn cael eu gwneud er mwyn canfod a oedd da byw wedi bod mewn cysylltiad â’r clwy. Nid oedd yn glir eto pa ofynion fyddai’n cael eu pennu gan yr Undeb Ewropeaidd ond yr oedd yn debygol o fynnu bod anifeiliaid a oedd yn cario gwrthgorffynnau rhag y clwy yn cael eu lladd a bod profion yn cael eu gwneud ar bob anifail hyd at saith cilomedr oddi wrth achos a gadarnhawyd. Awgrymwyd bod heintusrwydd anifeiliaid a oedd yn cario gwrthgorffynnau yn diflannu oddeutu naw mis ar ôl bod mewn cysylltiad â’r clwy. Fodd bynnag, ni wyddid i sicrwydd am faint o amser yr oedd anifeiliaid yn dal i gario’r clwy ac yr oedd y ffaith fod defaid yn cael eu cludo gymaint o amgylch y wlad yn golygu bod y polisi lladd yn angenrheidiol.

2.3 Yr oedd llawer o ffermwyr yn dechrau ail stocio erbyn hyn. Holwyd y Gweinidog a allai ceirw fod yn ffynhonnell heintiad gweddilliol. Dywedodd Tony Edwards na chanfuwyd unrhyw haint yn y ceirw ar stad y Castell Coch ym Mhowys.

2.4 Yr oedd saethu adar hela’n ffynhonnell incwm werthfawr yn yr hydref a holwyd y Gweinidog beth oedd y sefyllfa mewn ardaloedd a oedd yn ddarostyngedig i gyfyngiadau clwy’r traed a’r genau. Cytunodd Tony Edwards y byddai’n gwneud ymholiadau ac yn paratoi nodyn ar gyfer y pwyllgor.

2.5 Mynegwyd pryder ynghylch sylw honedig y Gweinidog y gallai gymryd pum mlynedd cyn bod modd ailddechrau allforio. Yr oedd prynu a gwerthu yn cael ei ganiatáu erbyn hyn yn Iwerddon ac yn yr Iseldiroedd yn dilyn achosion o’r clwy yno. Yr oedd yn hanfodol bod ffermwyr Cymru’n cael prynu a gwerthu cyn gynted ag y byddai’n bosibl er mwyn iddynt allu sicrhau incwm. Dywedodd y Gweinidog mai pum mlynedd oedd y senario waethaf a fyddai’n bosibl ac yr oedd yn dibynnu ar allu’r DG i gydymffurfio â gofynion y Comisiwn Ewropeaidd. Gan na chafwyd llawer o achosion o’r clwy yn yr Iseldiroedd ac Iwerddon, a chan fod yr achosion wedi bod yn rhai unigol, yr oeddent wedi gallu codi’r gwaharddiadau’n gynt. Yr oedd yn holl bwysig bod y DG yn gallu dangos iddi reoli’r clwy a symudiadau anifeiliaid. Byddai modd llacio’r cyfyngiadau ar wartheg yn gyntaf gan fod modd olrhain eu symudiadau trwy System Symud Gwartheg Prydain (BCMS). Yr oedd symudiadau defaid yn fwy o broblem gan nad oedd dull adnabod dibynadwy ar gael.

2.6 Holwyd y Gweinidog a fyddai modd cyflwyno system o drwyddedau cyffredinol, tebyg i’r hwnnw

yn yr Alban, yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog fod yr ardal amodol rydd yn yr Alban yn llawer mwy na'r un yng ngorllewin Cymru. Dywedodd ei fod yn ystyried llacio ychydig mwy ar y system drwyddedu ac y byddai'n gwneud cyhoeddiad cyn diwedd yr wythnos.

2.7 Holwyd y Gweinidog pa gamau oedd yn cael eu cymryd er mwyn newid statws 'Mewn Perygl' i statws ardal 'Rydd Dros Dro'. Dywedodd y dylai'r pwynt sylfaenol gael sylw yn y datganiad y cyfeiriwyd ato eisoes.

2.8 Croesawyd y cynnydd a oedd wedi ei wneud gyda thalu iawndal i ffermwyr am stoc a oedd wedi eu difa. Holwyd y Gweinidog a oedd unrhyw oedi gyda thaliadau i gontractwyr a oedd yn ymwneud â diheintio safleoedd heintiedig. Nododd y Pwyllgor fod rhywfaint o oedi, ond bod Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn gobeithio gwneud y taliadau'n gyfredol yn ystod y pythefnos nesaf.

2.9 O ganlyniad i'r oedi cyn gweithredu Cyswllt Ffermio holwyd y Gweinidog a oedd perygl y byddai'r arian Amcan 1 yn cael ei golli pe na bai'n cael ei wario. Nododd y Pwyllgor fod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n trafod effaith clwy'r traed a'r genau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd.

2.10 Codwyd pwnc adolygiadau dewisiadau busnesau fferm. Yn ystod y cyfarfod blaenorol yr oedd y Gweinidog wedi cytuno i ymateb i awgrym y dylid rhoi blaenoriaeth i ffermydd a oedd yn ddarostyngedig i rybuddion Ffurflen D. Dywedodd y Gweinidog mai cyngor y milfeddygon oedd na ddylai pobl ymweld â ffermydd a oedd yn ddarostyngedig i rybuddion Ffurflen D. Nododd y Pwyllgor y byddai cyngor yn cael ei ryddhau cyn gynted ag y byddai'n bosibl, ond efallai na fyddai'r diwydiant yn awyddus iawn i sefydlu grwp blaenoriaeth arall ar gyfer cymorth. Yr oedd yr adolygiadau'n cael eu targedu ar y pryd tuag at y ffermwyr hynny yr oedd eu da byw wedi eu difa.

2.11 Holwyd y Gweinidog ynghylch oedi cyn ymateb i ohebiaeth. Dywedodd y Gweinidog fod atebion yn cael eu rhoi cyn gynted ag yr oedd yn bosibl. Bu'n rhaid adleoli staff er mwyn delio gyda'r clwy, ond yr oedd yr ohebiaeth a oedd wedi crynhoi wedi ei chlirio gan mwyaf erbyn hyn.

2.12 Holwyd y Gweinidog ynghylch y camau a gymerwyd i nodi llwybrau dynodedig lle y byddai'n rhaid teithio drwy "ardal lân" er mwyn cyrraedd lladd-dy. Dywedodd wrth y pwyllgor y dylai'r datganiad arfaethedig yn ddiweddarach yn yr wythnos ymdrin â hyn.

2.13 Mynegwyd pryderon ynghylch taliadau a oedd yn dal i fod yn ddyledus i arwerthwyr am brisio da byw. Dywedodd y Gweinidog fod anghydfod cyfreithiol ynghylch rhai taliadau. Pe bai manylion yn cael eu darparu gellid cyflwyno achosion i sylw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig er mwyn gweld a ellid gwneud rhandaliadau.

2.14 Awgrymwyd y dylai arian fod ar gael er mwyn hyrwyddo wyn ysgafn. Dywedodd y Gweinidog fod Cyfadran Fwyd yr Awdurdod Datblygu a'r Comisiwn Cig a Da Byw yn gweithio'n ddiwyd er mwyn hybu cig oen o Gymru a bod ôl-gerbyd symudol wedi ei ddefnyddio yng ngêm derfynol Cwpan y Gymdeithas Bêl-droed yn ddiweddar ac mewn digwyddiadau eraill.

2.15 Trodd y drafodaeth at y cynnig i wahardd symud anifeiliaid am 20 diwrnod. Dywedodd y Gweinidog wrth y pwyllgor fod yr ymgynghori wedi dod i ben erbyn hyn. Ei nod oedd rhoi cyfle i'r pwyllgor gyfrannu at y trafodaethau cyn gwneud y penderfyniadau terfynol a ddisgwylir yn yr hydref.

2.16 Yr oedd y pwyllgor yn croesawu'r cyfle i drafod y mater ymhellach. Mynegwyd pryder nad oedd y cynigion wedi eu hystyried yn ddigon trylwyr a bod angen trafodaeth lawnach gyda'r rhai yr oeddent yn effeithio arnynt. Yr oedd yn bwysig bod yr holl gigoedd a oedd yn cael eu mewnforio yn ddarostyngedig i reolau llym a bod yr un safonau ag a ddefnyddid ar gyfer cig wedi ei gynhyrchu yn y DG yn cael eu cymhwyso. Dylid gwneud dadansoddiad cost-budd llawn o'r gwaharddiad 20 diwrnod.

2.17 Dywedodd y Gweinidog fod y papur yn nodi nifer o ddewisiadau posibl ac mai un ohonynt oedd gwaharddiad llwyr ar symud am 20 diwrnod. Yr oedd yn amlwg fod angen cyflwyno system adnabod debyg i'r un a ddefnyddir gyda gwartheg ar gyfer defaid, ond byddai'n cymryd hyd at ddwy flynedd i'w sefydlu. Yn y cyfamser yr oedd yn bwysig gallu argyhoeddi Ewrop bod rheolau symud digonol yn cael eu gweithredu, ac efallai y byddai angen cyflwyno gwaharddiad symud 20 diwrnod yn y cyfamser er mwyn ailagor y farchnad allforio. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn bwysig profi i Ewrop bod y DU yn gwbl glir o'r clwy trwy gynnal profion gwaed a sicrhau bod rheolau symud digonol yn cael eu gweithredu. Mae cysylltiad agos rhwng y naill a'r llall. Cytunodd y Gweinidog i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch yr opsiynau fel ag y maent yn ei adroddiad i'r pwyllgor ar 18 Gorffennaf.

2.18 Codwyd pwnc Cynllun Grantiau Coetir. Teimlid bod cyfraddau'r grantiau'n rhy isel i fod yn ddeniadol. Dywedodd y Gweinidog mai dyma pam ei fod wedi gofyn i'r Comisiwn Coedwigaeth wneud adolygiad o Grantiau Coetir.

2.19 Awgrymwyd yn y cyfarfod blaenorol y disgwylid datblygiadau buan yng nghyswllt nawdd ariannol ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb yn ymwneud â phrosiect peilot tebyg i brosiect *Cysgod y Coed* yng nghanolbarth Cymru. Nododd y pwyllgor nad oedd y mater wedi ei ddatrys ond y dylai hynny ddigwydd yn fuan.

2.20 Nododd y pwyllgor fod y Gweinidog i fod i lansio'r Strategaeth Coetir ar 2 Gorffennaf. Er ei bod wedi ei disgrifio yn ei adroddiad fel Strategaeth Coetir y Cynulliad Cenedlaethol nid oedd wedi cael ei thrafod yn y Cyfarfod Llawn. Cytunwyd y dylid trosglwyddo barn y pwyllgor y dylid trafod y Strategaeth yn y Cyfarfod Llawn i'r Pwyllgor Busnes.

2.21 Croesawyd y newyddion bod First Milk wedi prynu ffatri gaws Dyffryn Aeron. Yr oedd llawer o faterion i'w trafod mewn perthynas â'r diwydiant llaeth ac yr oedd y pwyllgor i fod i glywed gan Grwp Sector Llaeth y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth ym Mai, ond bod yr eitem wedi ei gohirio oherwydd clwy'r traed a'r genau. Nododd y pwyllgor fod Grwp y Sector Llaeth i fod i fynychu'r cyfarfod ar 4 Gorffennaf.

*Pwyntiau gweithredu*

2.22 Nodyn i’w ddarparu yn trafod y sefyllfa gyda saethu adar hela mewn ardaloedd a oedd yn ddarostyngedig i gyfyngiadau clwy’r traed a’r genau - **Tony Edwards**

2.23 Datblygiadau gyda’r cynigion ar gyfer gwaharddiad 20 diwrnod ar symud gwartheg, defaid a geifr i’w cynnwys yn adroddiad y Gweinidog i’r cyfarfod ar 18 Gorffennaf - **Gweinidog (Is-adran Polisi Amaethyddol)**

2.24 Dwyn barn y pwyllgor y dylai’r Strategaeth Coetir gael ei thrafod yn y Cyfarfod Llawn i sylw’r Pwyllgor Busnes - **Ysgrifenyddiaeth**

**Eitem 3: Adolygiad o Drefniadau Cig Oen yr UE** - ARD 11-01(p2)

3.1 Dywedodd y Gweinidog fod y papur yn amlinellu’r newidiadau y bwriedid eu gwneud i drefniadau cig oen yr Undeb Ewropeaidd. Byddai barn y pwyllgor yn cael ei hystyried wrth ddatblygu safbwynt y DG yn nhrafodaethau’r Aelod Wladwriaethau gyda Ewrop.

3.2 Mynegwyd cefnogaeth i’r egwyddor o ddatgyplu ond cydnabyddid y byddai Cymru ar ei cholled pe na bai’r cyllid a’r cwota wedi eu pridiannu.

3.3 Gofynnwyd i’r Gweinidog a oedd darpariaeth yn y cynigion i ganiatáu i ffermwyr, mewn argyfwng fel clwy’r traed a’r genau, gael eu talu am beidio â defnyddio cwota am 12 mis. Dywedodd y Gweinidog y dylid edrych ar hyn fel cam i helpu’r sector defaid i ddelio â’r problemau tymor byr a fyddai’n gwaethygu’n hwyrach eleni, yn hytrach na’i fod yn ymwneud â’r rheoliad drafft a fyddai, pe’i cymeradwyid, yn berthnasol i gynllun 2001.

3.4 Mynegwyd y farn bod y cynigion yn symleiddio cryn dipyn ar y trefniadau presennol, y byddent yn rhoi syniad cliriach pa gefnogaeth a oedd ar gael i ffermwyr ac, fel y nodwyd ym mharagraff 6 yn y papur, yn arwain at daliadau Premiwm Blynyddol Defaid (ASP) uwch yng Nghymru o’u cymharu â’r taliadau presennol. Nododd y pwyllgor fod gwerth taliadau i ffermwyr yng Nghymru yn dibynnu’n rhannol ar amrywiadau’r gyfradd gyfnewid.

3.5 Byddai’r premiwm cyfradd unffurf a oedd yn cael ei gynnig yn darparu mwy o sefydlogrwydd i ffermwyr er mwyn iddynt gynllunio ar gyfer y dyfodol. Holwyd y Gweinidog a fyddai modd cyflwyno dadl dros iawndal amaeth-ariannol i wneud iawn am amrywiadau arian cyfredol. Yr oedd yn bwysig hefyd bod cwotâu yn cael eu pridiannu er mwyn sicrhau bod Cymru’n gallu manteisio i’r eithaf ar y gefnogaeth a oedd ar gael. Nododd y pwyllgor fod iawndal amaethyddol yn amodol ar gyfyngiadau amser ac nad oedd yn debygol y byddai ar gael ar gyfer y cynllun hwn. Dylid rhoi sylw i gwestiynau a oedd yn ymwneud â dyrannu cwota pan fyddai’r cynllun yn cael ei weithredu. Yr oedd swm y cymorth a oedd ar gael i ffermwyr unigol yn dibynnu ar nifer yr anifeiliaid a oedd yn gymwys ond, a chymryd na fydd y rheolau hyn yn newid, bydd y cynigion yn arwain at godiad yn lefel taliadau SAP yng Nghymru.

3.6 Yr oedd y rheoliadau drafft yn awgrymu y byddid yn arbed rhywfaint ar gostau gweinyddol. Holwyd

y Gweinidog beth fyddai’n cael ei wneud gyda’r arbedion hyn. Nododd y pwyllgor y byddai symleiddio’r rheoliadau yn lleihau costau gweinyddu Brwsel.

3.7 Holwyd y Gweinidog a oedd yr uchafswm rhanbarthol wedi ei bennu. Nododd y pwyllgor bod atodiad 1 i’r rheoliad drafft yn dangos y cwotâu a ddyrannwyd i’r Aelod Wladwriaethau. Nid oedd y Comisiwn o’r farn bod angen gosod uchafswm ar gyfer y rhanbarthau at ddibenion y SAP.

3.8 Yr oedd y cynigion yn caniatáu i bremiwm atodol gael ei dalu lle’r oedd 90% o’r anifeiliaid yn cael eu pori am 90 diwrnod yn olynol mewn ardal gymwys. Dywedodd y Gweinidog nad oedd bwriad i newid y cyfnod cadw presennol. Roedd disgwyl i’r Comisiwn gynnig eglurhad llawnach o’r diffiniad o "grwpiau cynhyrchwyr".

3.9 Yr oedd Erthygl 11 yn y rheoliadau’n darparu ar gyfer storio preifat mewn amgylchiadau marchnad anodd a holwyd y Gweinidog a ellid defnyddio hyn i fynd ag wyn ysgafn oddi ar y farchnad. Dywedodd y Gweinidog fod y rheoliadau cyfredol hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer storio preifat.

**Eitem 4: Ffermwyr Newydd** - ARD 11-01(p3)

4.1 Dywedodd y Gweinidog fod y papur yn cyflawni ymrwymiad i ddod â chynigion gerbron y pwyllgor ynghylch cymorth i bobl ifanc a oedd yn awyddus i ddechrau ffermio. Yr oedd yn dal i gredu nad oedd pecyn cymorth sefydlu yn effeithiol ac nad oedd yn cynnig gwerth am arian. Yr oedd llawer o’r syniadau a oedd yn y papur wedi dod gan y ffermwyr ieuainc eu hunain.

4.2 Holwyd y Gweinidog beth fyddai’r camau nesaf. Dywedodd y byddai’n gwrando ar farn y pwyllgor ac yn cyflwyno cynnig ar gyfer cynllun ffurfiol yn yr hydref.

4.3 Holwyd y Gweinidog a oedd unrhyw waith wedi ei wneud gyda Chyllid Cymru mewn perthynas â chymorth y gallent ei gynnig i ffermwyr ieuainc, yn dilyn y dystiolaeth a roddwyd ganddynt yn ystod eu hadolygiad arallgyfeirio. Nododd y pwyllgor fod cyllid ar gyfer yr agwedd hon ar waith Cyswllt Cymru’n dod o’r Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd ac, o ganlyniad, nad oedd modd ei ddefnyddio i gefnogi ffermio, ond y gallai helpu gyda phrosiectau arallgyfeirio.

4.4 Croesawyd y pwyslais ar hyfforddiant ac addysg a oedd yn y papur. Yr oedd y diwydiant yn debygol o wynebu prinder sgiliau yn dilyn clwy’r traed a’r genau ac yr oedd angen rhoi sylw i hyn. Dywedodd y Gweinidog fod addysg a hyfforddiant yn elfennau hanfodol yn y pecyn. Yr oedd ffermwyr ieuainc yn llawn syniadau da a brwdfrydedd ac yr oedd angen eu cefnogi.

4.5 Mynegwyd y farn, er bod sawl agwedd ar y cynigion a oedd i’w croesawu, ei bod yn siomedig nad oedd y cynigion yn fwy arloesol. Yr oedd angen aildrefnu proffil oedran y diwydiant ac awgrymwyd mai cyfuniad o’r cynigion hyn a chymorth sefydlu Ewropeaidd i ddarparu cyfalaf oedd y ffordd orau ymlaen.

4.6 Cwestiynwyd y farn hon. Nid oedd unrhyw gyfiawnhad dros ddarparu cyfalaf drwy'r cynllun cymorth sefydlu, yr oedd astudiaeth wedi dangos ei fod yn aneffeithiol a heb fod yn cynnig gwerth am arian. Dylid cysylltu cefnogaeth i bobl ifanc a oedd yn awyddus i ddechrau ffermio â strategaeth y Cynulliad ar gyfer arallgyfeirio, ychwanegu gwerth a gweithio ar y cyd. Gellid targedu Tir Gofal er mwyn helpu ffermwyr newydd ond byddai angen rhoi mwy o arian i mewn os oedd i wneud argraff. Dywedodd y Gweinidog fod hyn yn cael ei ystyried ac yr oedd adroddiad cloriannu Tir Gofal yn cael ei wneud er mwyn nodi gwelliannau posibl i'r cynllun.

4.7 Codwyd nifer o bwyntiau manwl gan gynnwys cais am fwy o fanylion am y cynlluniau hyfforddi a oedd i'w hariannu gan ELWa (paragraff 5 yn y papur) a'r camau a oedd yn ymwneud â hwylusydd/ Angel Busnes (paragraff 6). Dywedodd y Gweinidog mai i ddibenion ymgynghorol yr oedd y cynigion ar hyn o bryd ac y byddai mwy o fanylion yn cael eu darparu yn y cynllun terfynol.

4.8 Croesawyd y syniad o ffermio cydweithredol a gofynnwyd i'r Gweinidog sut y gellid ei ddatblygu. Cytunodd y Gweinidog y dylid datblygu agwedd gydweithredol ac y dylid annog cylchoedd peiriannau a chynlluniau cyffelyb.

4.9 Yr oedd sicrhau cwotâu yn gost gyfalaf sylweddol i ffermwyr newydd. Dywedodd y Gweinidog fod pwnc cwotâu yn cael ei ystyried ond y byddai angen pridiannu cwotâu Cymru cyn y gellid eu hailddyrannu gan roi blaenoriaeth i bobl ifanc a oedd yn awyddus i ddechrau ffermio.

4.10 Cytunodd y Gweinidog i ddod â chynigion manylach gerbron y pwyllgor yn yr hydref.

**Eitem 5: Deddfwriaeth Ewropeaidd** - ARD 17-00(p4)

5.1 Eglurodd y Cadeirydd fod y papur hwn wedi ei ddarparu fel papur i'w nodi ar gyfer y pwyllgor fis Tachwedd diwethaf. Yr oedd wedi ei gynnwys ar yr agenda er mwyn darparu cefndir ar gyfer yr ymweliad y byddai'r pwyllgor yn ei wneud â Brwsel.

5.2 Holwyd y Gweinidog a oedd yn gywir dweud pe bai'r camau dan Hyrwyddo Addasu a Datblygu Ardaloedd Gwledig (manylion ym mharagraff 35 yn yr atodiad) yn cael eu cymhwyso ym Mhowys na fyddai'r ardal yn gymwys ar gyfer arian Amcan 2. Nododd y pwyllgor y gellid ariannu'r camau dan Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGGF) neu dan y Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd (ERDF). Yn yr ardal Amcan 2, dylai gweithgareddau y cyfeirir atynt yn Erthygl 33 ac y gellid eu cyllido o'r ERDF gael eu cyfeirio at raglen Amcan 2. Byddai gweithgareddau y gellid eu cyllido o'r EAGGF (y rheini sy'n ymwneud yn fwy uniongyrchol â'r tir) yn cael eu cyfeirio at y Cynllun Datblygu Gwledig. O ganlyniad, roedd Powys yn gymwys i gael cyllid gan y ddwy raglen, ond byddai gwahanol weithgareddau'n cael cymorth gan o wahanol gronfeydd.

5.3 Holwyd y Gweinidog sut y gellid amddiffyn tyfwyr organig rhag y posibilrwydd o lygredd oddi wrth gnydau wedi eu haddasu'n organig a allai olygu bod y Gymdeithas Bridd yn diddymu'r statws organig. Atgoffaodd y Gweinidog y pwyllgor o'r camau yr oedd wedi eu cymryd er mwyn atal cnydau wedi eu haddasu'n enetig rhag cael eu plannu yng Nghymru a nododd nad oedd unrhyw brofion yng Nghymru

eleni o fewn chwe milltir i fferm organig.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol -** ARD 10-01(min)
6.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin.

**Ysgrifenyddiaeth** **Mehefin 2001**